# Tîm Cymorth i Warcheidwaid Arbennig

**Pwy ydyn ni?**

Mae'r Tîm Cymorth i Warcheidwaid Arbennig wedi ymrwymo i ddarparu cymorth i Warcheidwaid Arbennig sy'n byw ym mwrdeistref Torfaen.

Mae ein gwasanaeth ar gael pum niwrnod yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Iau 8.30am-5pm ac 8.30am-4.30pm ar ddydd Gwener. Rydym bob amser wrth law i roi cymorth ac arweiniad i bobl sydd wedi cael Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig dros blentyn sydd yn eu gofal.

**Ein Tîm**

Mae'r tîm yn cynnwys dau Weithiwr Cymorth Cymunedol, sydd ag ystod o sgiliau a rhinweddau perthnasol i gefnogi Gwarcheidwaid Arbennig.

Mae yna hefyd Rheolwr Tîm Cynorthwyol sy'n Weithiwr Cymdeithasol cymwys ac sydd â blynyddoedd lawer o brofiad yn gweithio gyda Thimau Plant a Theuluoedd.

Y Rheolwr Tîm sy'n goruchwylio'r gwasanaethau cymorth ac mae ganddo gefndir mewn gwasanaethau statudol i blant a theuluoedd ac yntau sy'n gyfrifol am y Tîm Lleoli Teuluoedd cyfan.

**Pa gymorth ydyn ni'n ei ddarparu**

Cymorth Gwaith Uniongyrchol

Gall y tîm cymorth fod wrth law i roi cyngor a chymorth yn ystod oriau swyddfa. Gall y tîm gynorthwyo gyda sefyllfa sy'n codi unwaith, ymholiad, neu gallant gynorthwyo i ddarparu cymorth uniongyrchol trwy gyfnodau anoddach neu heriol. Gall y cymorth hwn fod yn gymorth wyneb yn wyneb, neu dros y ffôn.

Cyfeirio at asiantaethau eraill

Gall y tîm cymorth hefyd gyfeirio Gwarcheidwad Arbennig at wasanaethau lleol eraill a all helpu, er enghraifft; Cyngor ar Fudd-daliadau, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a chymorth sy'n gysylltiedig â thai.

**Cymorth Ariannol**

Efallai y bydd gan Warcheidwad Arbennig hawl i gymorth ariannol, a ystyrir fel rhan o asesiad ariannol â phrawf modd. Adolygir yr asesiad hwn yn flynyddol neu os bydd sefyllfa ariannol y Gwarcheidwad Arbennig yn newid. Bydd taliadau'n dod i ben unwaith y daw'r Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig i ben, pan fydd plentyn yn 18 oed, os bydd ei drefniadau gofal yn newid neu os bydd yn dechrau gweithio'n llawn amser. Yn ogystal â'r cymorth ariannol gan yr Awdurdod Lleol, gall Gwarcheidwad Arbennig hefyd wneud cais am fudd-daliadau plant, ac efallai gall hawlio credydau treth - gall y Tîm Cymorth i Warcheidwaid Arbennig gynorthwyo gyda hyn, os oes angen.

**Cymorth Aml-asiantaeth**

Gall y tîm cymorth gynorthwyo a chefnogi yn ystod cyfarfodydd amlasiantaeth, fel adolygiadau Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig / Adolygiadau Gorchymyn Goruchwylio a hefyd gysylltu ag asiantaethau fel tai neu addysg.

**Cymorth Arall o ran Gofal Cymdeithasol**

Gallai Gwarcheidwad Arbennig a'r plentyn/plant yn eu gofal hefyd elw ar gymorth arall a gynigir gan yr Awdurdod Lleol i bob teulu yn Nhorfaen. Rhai enghreifftiau yw'r; ***Tîm Ymateb Cyflym, Y Tîm Ffocws ar Deuluoedd*** a'r ***Tîm Adnoddau i Deuluoedd***. Byddai hyn yn cael ei asesu trwy Asesiad Gofal a Chymorth y gall Gwarcheidwaid Arbennig ofyn amdano trwy'r ***Ganolfan Diogelu a Chymorth Amlasiantaeth (MASSH)***. Gall y tîm cymorth eich helpu i atgyfeirio; fodd bynnag, y Tîm penodol hwnnw fydd yn penderfynu a roddir unrhyw gymorth ai beidio.

**Teulu Biolegol/Cymorth Cyswllt**

Gellir cynnig cyngor, cefnogaeth ac arweiniad mewn perthynas â materion yn ymwneud â chysylltiadau teulu biolegol a/neu faterion cyswllt.

Gall yr Awdurdod Lleol gynnig Cynhadledd Grŵp Teulu y gellir ei hwyluso trwy'r Tîm Adnoddau i Deuluoedd i Warcheidwad Arbennig sy'n cael anawsterau gyda pherthnasoedd teulu biolegol a chyswllt.

**Hyfforddiant**

Anogir pob Gwarcheidwad Arbennig i gymryd rhan mewn hyfforddiant ar-lein y gallant ei gyrchu trwy **Dîm Datblygu Sefydliadol** yr Awdurdod Lleol. Gall y tîm cymorth gynorthwyo i sefydlu hyn a threfnu i chi fynychu'r rhaglenni hyfforddi perthnasol.

Gall Gwarcheidwad Arbennig hefyd gael mynediad at hyfforddiant a ddarperir gan MyST (tîm cymorth therapiwtig) a'r Rhwydwaith Maethu.

**Cymorth Therapiwtig**

Mae gan y tîm cymorth fynediad hefyd i'r Tîm Seicoleg Cymunedol, Panel Lles SPACE a llinell Cyngor ar Seicoleg.

**Grŵp Cymorth a Chymorth Cymheiriaid**

Ar hyn o bryd mae grŵp cymorth rhithwir, misol yn cael ei gynnal ar gyfer pob gwarcheidwad arbennig. Gall y tîm cymorth hefyd sefydlu cyswllt rhwng y gwarcheidwad arbennig a gwarcheidwaid arbennig eraill i gael cymorth hynod werthfawr gan gymheiriaid.

**Cymorth wrth Adael Gofal**
Mae'r tîm cymorth yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Cymorth Pobl Ifanc Torfaen, a all gynnig rhywfaint o gymorth i rai plant sydd wedi bod yn destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Byddai'r cymorth hwn yn destun asesiad pellach a phenderfyniad Gwasanaeth Cymorth Pobl Ifanc Torfaen (TYPSS) fyddai darparu unrhyw gymorth parhaus unwaith y bydd plentyn yn 18 oed.

**Cymorth Cyfreithiol**
Os yw rhieni biolegol yn herio'r Gorchymyn Gwarcheidwad Arbennig neu'r trefniadau cyswllt trwy'r broses llys, bydd yr Awdurdod Lleol yn cynorthwyo gyda thalu costau cyfreithiol (hyd at y gyfradd cymorth cyfreithiol.) Pe bai Gwarcheidwad Arbennig yn dymuno dirymu'r Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yna bydd yn ofynnol i dalu'r gost gyfreithiol sydd yn deillio o hyn.

## Sut ydw i'n cael mynediad i'r Tîm?

Gall Gwarcheidwad Arbennig hunangyfeirio at y tîm cymorth trwy gysylltu â'r tîm ar:

Ffôn: **01495 766697 neu e-bost: SGOSupportTeam@torfaen.gov.uk**.

Gall Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn/person ifanc hefyd gyfeirio Gwarcheidwad Arbennig a gellir cynnal trafodaethau ynghylch y cymorth sydd ei angen ar Warcheidwad Arbennig.

Mae'r Tîm Cymorth i Warcheidwaid Arbennig yn wasanaeth hyblyg, a gall Gwarcheidwad Arbennig ddewis bod yn rhan o'r gwasanaethau cymorth neu beidio, ar unrhyw adeg trwy gydol y cyfnod y bydd Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig ar waith.